

Llais y Llan Awst 2017

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 24th Medi 2017
Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol
www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643

Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4

Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd

Awst 11 Nos Wener 7.30 'The River' Neuadd Goffa £7.50

Awst 13 Dydd Sul 2.00 Cerdded Pembrey Burrows

Awst 15 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Awst 16 Dydd Mercher Taith Bath Clwbgwili 60+

Awst 21 Dydd Llun 2.00 Clwbgwili 60+ Neuadd Bronydd

Awst 27 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Awst 31 Nos Iau 8.00 CCB Clwb Bowlio Neuadd Goffa

Medi 5 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Medi 9 Dydd Sadwrn y weiren Zip Skanda Vale

Medi 13 Dydd Mercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Medi 19 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Medi 23 Dydd Sadwrn 10.00 – 12.00 Bore Coffi MacMillan Neuadd Goffa

Medi 24 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronydd

Medi 24 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Medi 25 Dydd Llun 2.00 Clwbgwili 60+ Neuadd Bronydd

Medi 26 Nos Fawrth 7.30 Pryd Bwyd Tafarn y Rheilffordd

Hydref 3 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Hydref 6 Nos Wener 6.30 Gwasanaeth Cynhaef ac swper yn y Neuadd Goffa

Hydref 11 16.30 Heddlu Neuadd Goffa

Hydref 11 Dydd Mercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Hydref 13 Nos Wener Noson Rasys Neuadd Bronydd

Hydref 14 Nos Sadwrn Cynhelir noson deyrnged i Elvis Presley Neuadd Goffa

Hydref 17 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Hydref 22 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronydd

Hydref 29 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Tachwedd 4 Nos Sadwrn Cór Llanpumsaint a'r Cylch Cyngerdd Blynnyddol Capel Tabernacle

Tachwedd 7 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Tachwedd 26 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronydd

Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Derick Lock 01267253524

Bandlydan

Wythnosau yn ôl dechreuais i sgwrsio a Noel Kirkpatrick o gwmni B.T. Mae'r cebl ffibr wedi bod tu allan i'r tŷ mewn bocsgwyrdd newydd ers peth amser yn awr.

Ro'n i eisioes wedi gwirio statws y ffibr ac nid oedd unrhyw symudiad wedi digwydd ers amser maith. Dwedodd Noel nad oedd "Open Reach" wedi newid y statws ers peth amser a byddai rhaid aros am fis eto cyn y byddai archebu yn bosibl. Rhaid diolch i Noel am ddod yn ôl ata i mewn 5 diwrnod bob tro y byddai yn gwenud unrhyw ymholiadau ac mae e wedi poeni Openreach am ddyddiad yn ôl ei addewid.

Pan gafodd Llanpumsaint bandlydan cyflymach rhai blynyddoedd yn ôl fe wnaeth y cynllun stopio ar bwys yr arwyddbost (ar waelod yr heol) gan ein bod ni sef 32 o dai ddim o fewn cyffiniau'r pentref. Felly roedd rhaid bodloni ar 2 Mbs. Gyda chymorth y Llywodraeth cafwyd grant ac yn y diwedd fe gaethon ni 10 Mpbs. Mae yn cael ei drosglwyddo drwy radio a hynny o fastiau sydd o amgylch yr ardal. Mae hwn gyda ni ers sawl blwyddyn bellach ac y mae yn awr yn dechrau rhoi problemau i ni a hynny yn waeth yn yr haf gyda'r tyfiant sydd ar y coed. Yn bresennol mae gyda ni rhwng 2 a 6 Mbps. Ychydig wythnosau yn ôl gwiriais eto i weld a byddai y ffibr ar gael i ni yn y rhan yma o'r pentref ond doedd dim symudiad wedi bod o gwbl.

Ar Orffenaef 14eg roedd contractwyr ar yr heol yma yn gwirio y cysylltiadau yn y bocsgwyrdd sydd ar y post. (fel sydd yn rhannau eraill o'r pentref) felly ar Orffenaef 16eg gwiriais eto gyda BT ac yr oedd popeth yn barod i archebu. Roedden ni yn y rhan yma o'r pentref o'r diwedd yn mynd i gael 300Mbs!!!!

Felly yn syth fe archebais i "BT Infinity" achos ein bod yn awr yn cael cadarnhad y byddwn yn cael y 52Mb. gwarantedig.

Mae'r sefydlu mewn dau ran fel a ganlyn:-

Rhan 1 Bydd Open Reach yn rhoi bocsgwyn ar y wal tu fâs i'r tŷ ac yn cysylltu y ffibr iddo. Maent yn dweud nid yw yn ofynnol i chi aros gartref pan fyddant yn cysylltu'r bocsg ond falle byddai yn ddoeth i wneud.

Y dyddiad penodol i ni oedd Gorffenaef 26ain ond fe gyrhaeddodd y peirianwyr ar fore y 25ain – diolch byth ein bod gartref. Yn ôl y peirianwyr roedd y cyfarwyddiadau ar y bocsg yn gamarweiniol a byddai yn well ganddynt petasai un o ni adref er mwyn trafod ble oedd y bocsgwyn i fod ar y wal.

Ar ôl tipyn o drafod, yn lle llawer o wifrau ar y wal, fe ddaethont i benderfyniad y byddai y ffibr yn cael ei sefydlu yn y bocsgbach gwyn yn ein llofft. A thrwy hyn byddai yn hawdd i BT ei gyrraedd pan fyddant ar eu hymweliad nesaf. Mae'n rhyfedd cyn lleied yw'r ffibr.

Roedd BT wedi trefnu ymwelaid ar Awst 1af i orffen y gwaith ac yn y cyfamser fe gyrhaeddodd y "router" drwy'r post. Felly roedd popeth yn barod.

Ar Awst 1af roedd BT fod gyrraedd rhwng 8.00 y b. a 1.00 y.p. Doedd neb wedi cyrraedd am 12..15 y.p. gwiriais eto i weld beth oedd y sefyllfa. Gwaetha'r modd yr ateb oedd na fyddai y peirianwr yn dod achos bod problem gyda'r ffibr newydd!

Cysylltais drwy e-bost (5 ohonynt) i gael cadarnhad pryd oedd y dyddiad penodol ond atebiad negyddol a gafwyd bob tro. Fe wnaethon nhw addo y byddent yn cysylltu mewn 2 ddiwrnod sef dydd Iau Awst 3ydd. Erbyn hyn roeddwn wedi colli fy nhymer ac yn fwy na dim, yn siomedig iawn.

Yr ydym yn awr yn edrych ymlaen i gael gyfarpar ychwanegol fel "BT Hotspots a Bt Smart Talk" Nid y ni yw'r cyntaf na'r olaf chwaith i gael y gwasanaeth hyn. Mawr obeithiwn yn y dyfodol bydd y pentref yn awr yn "hot spot" ac nid "not spot" Mwynhewch.

Ceisiadau Cynllunio

Os am ragor o wybodaeth ynglyn a'r uchod medrwch fynd i wefan Cyngor Sir Gár

W/35641 Llanfryn, Bronwydd, Caerfyrddin SA33 6HN Estyniadd ac ail –wneud y tŷ presennol i greu lle ychwanegol i fyw.

W/35641 Tir ar Fferm Llwyncelyn, Llanpumsaint SA33 6LR Bwriad i gael mast ar gyfer Vodaphone.

W/35724 Plotiau 5 – 8 Stád y Llandre, Llanpumsaint SA33 6BY. Bwriad i adeiladu 4 tŷ ar dir sydd wedi cael caniatad o'r blaen.

W/35725 Tir cyfagos i Llwynglas, Bronwydd SA33 6BN. Caniatad cynllun amlinellol i adeiladu tŷ.

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD

Mae'r plant wedi mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yr hanner tymor yma yn seiliedig ar y thema, "Fi, Fy hun". Maent wedi bod yn brysur yn creu lluniau o'u hunain yn defnyddio llawer o gardfwrdd, paent, gwlan a phapur tisw. Gan ein bod wedi cael tywydd braf, a nifer o'r plant yn son am eu hymweliadau i'r traeth, crewyd llun mawr o draeth a'r mor i osod ar y wal. Bu'r plant hefyd yn cael y siawns i drafod ac astudio cregyn a gwymon gyda phwyslais ar ddefnyddio'r synhwyrau.

Un o uchelbwyntiau'r tymor oedd gwibdaith i'r Ardd Fotaneg i'r Wyl Mudiad Meithrin. Roedd Martyn Geraint yno i ddiddani'r plant a'r oedolion gydag amrywiaeth o ganeuon adnabyddus fel "Heno, Heno, Hen Blant Bach", a rhai newydd fel "Mae'n Braf Cael Bod yn Ffrindiau" a "Dan ni'n dawnsio." Roedd tri chwarter awr o ganu a dawnsio (gydag ymweliad arbennig oddi wrth Dewin), cyn mynd allan i'r ardd i chwilio lle ar y lawnt am bicnic. Hyfryd oedd cael tywydd braf i fwynhau ein bwyd yn yr awyr agored. Wedi'r bwyd, roedd digon o gyfleoedd i chwarae o amgylch. Bu rhai plant yn chwarae yn y byrnau gwellt, er iddynt ganfod ambell bwl mwdlyd! Roedd y Plas Pili Palod hefyd o ddiddordeb mawr i ambell un. Yn wir yr oedd rhywbeth i bawb yno.

Cynhaliwyd Mabolgampau'r Mudiad ar y 12fed o Orffennaf. Bu'r plant yn cystadlu yn erbyn tri Cylch lleol arall. Eleni daethom yn ail, felly roedd angen rhoi'r darian yn ol, wedi blwyddyn yn eistiedd ar ben ein cwpwrdd. Llongyfarchiadau i Cylch Myrddin a ddaeth yn gyntaf. Roedd y plant i gyd wedi rhedeg yn arbennig o dda. Daeth cyfle arall iddynt redeg ar Ddydd Gwener y 14eg gan fod Mabolgampau'r Cylch. Roedd yn hyfryd i weld y plant yn mwynhau rhedeg ac ymfalchio yn eu sgiliau chwaraeon tra'n croesawu eu teuluoedd a'u ffrindiau i'r Cylch.

Ar ddiwrnod ola'r tymor, daeth cyfle i fynd ar dren Rheilffordd Gwili. Bob dydd mae'r plant yn rhyfeddu wrth weld y tren yn mynd heibio, clywed swm yr injan a gweld yr ager yn ffurfio patrymau yn ei ol. Er ei bod yn arllwys y glaw, roedd y plant a'r rhieni (a dwy Famgu), wrth eu bodd ar y daith ar hyd yr Afon Gwili i fyny i Llwyfan Cerrig yn gyntaf ac yna lawr y trac newydd i Gyffordd Abergwili. Rydym yn lwcus iawn bod Rheilffordd Gwili ar ein stepen ddrws. Diwedd glo pleserus iawn i'r tymor.

Os hoffech ymuno a ni y tymor nesaf am hwyl a sbri (ac eich bod o dan 4 oed) dyma'r rhif cysylltu: 07929 431652.

Tymor yr Hydref yn dechrau ar Ddydd Mawrth, 5ed o Fedi. Diolch. Verona.

5 Dyn Ifanc

Mae yna arwyddocad I rhifau ond oes, er enghraifft; dwy law yn erfyn sydd yn y darlun, tri chynnig I Gymro, pedwar llew tew heb ddim blew, ond pump yw'r rhif mwyaf nodweddiadol I'n cymuned ni ynte, wel y pum sant a ddaeth I'n parthau ganrifoedd yn ôl wnaeth roddi I ni enw ein pentref ynte, oherwydd iddynt adeiladu eglwys yma; Llan- pum- saint!

Yn rhyfedd iawn, mae'r rhif pump unwaith eto yn arwyddocaol oherwydd yn ddiweddar, mae pump dyn ifanc o ardal Llanpumsaint wedi cyrraedd uchelfannau ym meusydd chwaraeon o wahanol fathau, a'r pump ohonynt wedi bod yn cynrychioli Cymru. Gall ardal Nebo ymfrostio yng ngorchestion tri gŵr ifanc, Jac Davies am ennill Medal Aur gymnasteg ym Mhencampwriaeth Prydain ym Mis Mawrth eleni ac yna, Aled Davies a Ryan Elias, y ddau ohonynt yn chwarewyr blaenllaw a chyson I dîm rygbi'r Sgarleds, wedi ennill capiau dros Gymru pan aeth y Tîm Cenedlaethol ar daith i Hemisffêr y De dros yr haf. Dyna I chi dri; beth am y ddau arall? Rhaid dod lawr gwlad o ucheldir Nebo I brifddinas Dyffryn Gwili ffrwythlon; Llanpumsaint, a fanna gwelir y ddau arall, brodyr Gethin ac Aled Edwards, chwaraewyr medrus a ffyddlon I griw Bowllo Dan Dô Llanpumsaint, sydd eisioes wedi bod yn chwarae'r gamp dros Gymru, ac mi fydd y ddau frawd yn teithio gyda Tîm Cymru i Bencampwriaeth Bowllo Dan Dô Prydain ym Melffast ym mis Rhagfyr eleni. Llongyfarchiadau mawr I'r pump gŵr ifanc am ddod a chlod a bri I fro Llanpumsaint a'r Cylch, a dymuniadau gorau iddynt I'r dyfodol!

Llyfrgell Deithiol - Bob Dydd Gwener, heblaw 18/8 a 8/9, 11.30 – 12.30, Neuadd Goffa.

Ffôn 01267 224830

Ysgol Llanpumsaint

Tymor prysur ar ddiwedd blwyddyn academaidd arall. Bu'r plant yn cymryd rhan mewn llu o weithgareddau chwaraeon yn ystod y tymor yma. Fe aeth tim o flynyddoedd 4, 5 a 6 i chwarae criced ym Mronwydd lle y gwnaethant yn arbennig o dda. Aeth nifer o'r disgyblion i gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth athletau yng Nghaerfyrddin, ac fe wnaeth pawb eu gorau glas yn y gwahanol gampau. Cynhaliwyd mabolgampau blynyddol yr ysgol yn y parc eleni eto, ac fe gafwyd prynhawn sych a heulog a phawb yn mwynhau awyrgylch arbennig o gystadlu a chymryd rhan. Braff oedd clywed y plant yn cefnogi eu gilydd ac yn eu llongyfarch am ennill ac am wneud eu gorau.

Fel arfer mae pob pletyn yn yr ysgol yn cael y cyfle i gael gwersi nofio gyda'r ysgol, a hyfryd oedd gweld datblygiad y plant hŷn, a gweld y plant ieuengaf yn datblygu hyder ac yn mwynhau yn y pwll.

Fel y mae'r rhan fwyaf ohonoch wedi gweld erbyn hyn, mae na brosiect lliwgar wedi bod ar waith yn yr ysgol. Mae cwmni 'Splat Cymru' wedi bod yn gweithio gyda'r disgyblion i ddylunio a chreu murlun arbennig. Wal sy'n crynhoi hanes a nodweddion Llanpumsaint mewn ffordd fodern a thrwy lygaid dyfodol y pentref.

Yn ystod y tymor yma fe gynhaliwyd diwrnod agored er mwyn i'r gymuned leol gael cyfle i weld yr ysgol ar waith. Diwrnod hynod o gartrefol a chymdeithasol. Diolch yn fawr i bawb am eu gwaith cyn ac yn ystod y diwrnod er mwyn sicrhau llwyddiant y dydd.

Trip i'r traeth oedd ein trip blynyddol eleni, a Llansteffan oedd y lleoliad. Anodd iawn fyddai maeddu'r diwrnod gan ein bod wedi cael tywydd braff, golygfeydd godidog, hufen iâ blasus a'r plant yn ymddwyn yn arbennig, fel arfer.

Trefnwyd disgo fel rhan o weithgareddau'r clwb ar ôl ysgol, sydd yn gofalu am y plant tan 5.30y.h. bob noson o'r wythnos. Cafwyd noson o ddanwsio a mwynhau.

Er mwyn ffarwelio a blwyddyn 6 eleni fe gafwyd gwledd yn Mc Donalds ac yna nôl i'r parc yn Llanpumsaint am brynhawn o fwynhau gweithgareddau amrywiol. Pob lwc i Robert, Owain, Joseph a Josh yn yr Ysgol Uwchradd

Cór Llanpumsaint a'r Cylch

Ar hyn o bryd mae'r Cór yn cael saib haeddiannol ar ôl cyfnod prysur iawn. Ym mis Ebrill perfformiodd y Cór "Olivet to Calvary" yn Eglwys y Plwyf, Llandysul gyda'r elw yn mynd tuag at elusen ddewisiedig y Cór am 2017 sef M.S. Ar Orffenafl 6ed cynhaliwyd y Swper ac Adloniant blynyddol y Cór yn Neuadd Goffa Llanpumsaint. Cafwyd noson lwyddiannus iawn gyda adloniant gwych yng ngofal Bois y Gilfach a'r bwyd safonol iawn gan Steve a Ros Evans, Penbombren. Ar y nos Iau ganlynnol gwahoddwyd y Dysgwyr Cymraeg o Brifysgol Llambled i Lanpumsaint, fel sydd wedi digwydd ers sawl blwyddyn bellach. Cafwyd noson hwylus iawn gyda Merched y Cór wedi paratoi bwyd, y Dawnsio Gwerin yng ngofal Dafydd ac Aeres Davies a'r canu yng ngofal Gwyn Nicholas gyda Geraint Rees yn cyfeilio. Noson i'w chofio yn enwedig i'r Dysgwyr.

Fe fydd y Cór yn ail-ddechrau ar nos Iau Medi 7ed am 7.45 o'r gloch yn Neuadd Gymunedol, Cynwyl Elfed pan y byddwn yn paratoi ar gyfer y Cyngerdd Blynyddol ar Dachwedd 4ydd 2017 yng Nghapel y Tabernacl, Caerfyrddin. Hefyd bwriedir cynnal Noson Garolau ym mis Rhagfyr gyda'r elw yn mynd tuag at M.S. Ceir rhagor o fanylion am y ddau uchod yn y rhifyn nesaf o Lais y Pentref.

Diffibriliwyr

Pleser gan Guriad Calon, Llanpumsaint i gyhoeddi bod 4 diffibriliwr wedi cael eu sefydlu yn y pentre a'r cyffiniau. Maent yn y llefydd canlynnol:-

Neuadd Goffa

Festri Nebo

Tafarn y Rheilffordd

Henfryn (wal tu fâs) SA33 6LD

Mae'r diolch i "Awards for All Wales" am y gefnogeth i brynu 3 diffibriliwr ac i bawb yn y pentre ac o'r tu allan am eu cyfraniadau tuag at y cynllun hwn. Mawr obeithio na fydd angen ar neb eu defnyddio ond mae yn gysur i wybod eu bod ar gael i bawb.

Hefyd hoffem ddiolch i Mike Poston am ei waith cyson a chaled gyda'r cynllun hwn.

Ymddiriedolwyr Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

Yn y Cyfarfod Blynyddol o'r uchod penodwyd y swyddogion canlynnol am 2017/18

Cadeirydd	Elfed Davies
Is-gadeirydd	Dylan Jones
Ysgrifennydd	Derick Lock
Ysgrifennydd Cofnodion	Marice Sherlock
Trysorydd	Geraint Hughes
Gohebydd y Wasg	Gwyn Nicholas
Ysgrifennydd Bwci'r Neuadd	Derick Lock
Dirpwry i'r uchod	Celt Thomas
Ymchwilydd	Heledd Jones
Gaofal allwedd mewn brys	Angharad Harding

Prisiau Llogi'r Neuadd am 2017/18 (cost yr awr neu rhan o'r awr)

Prisiau Llogi'r Neuadd am 2017/18 (cost yr awr neu rhan o'r awr)

Neuadd	Yn ystod yr wythnos	£8.00
	Nos Wener a phenwythnosau	£10.00
Neuadd a'r gegin	Yn ystod yr wythnos	£10.00
	Nos Wener a phenwythnosau	£12.00
Ystafelloedd Cyfarfodydd	Unrhyw ddiwrnod	£5.00
	Gyda defnydd o'r gegin	£7.00
	Angladdau gyda defnydd o'r gegin a'r llestri	Unrhyw ddiwrnod £40.00

Cyfleusterau ychwanegol

Sain a systemau golau, prosiector a sgrin, piano electroneg a llestri £10.00 ychwanegol yr un.

Mae'r cyfarpar technegol ar gael ar gyfer digwyddiadau mawr yn unig.

Llogi'r llwyfan bach £10.00 a'r llwyfan cyfan £20.00

Mae'r wybodaeth yma i'w weld ar yr hysbysfwrdd bach y tu allan i'r neuadd ac hefyd ar yr hysbysfwrdd y tu fewn i'r neuadd.

Dyddiad i'ch dyddiadur

Cynhelir noson deyrnged i Elvis Presley yn y Neuadd ar Hydref 14eg 2017 am 7.30 y.h. Bydd tocynnau ar gael oddiwrth yr Ysgrifennydd, Derick Lock ar Awst 10ed 2017. Pris y tocynnau fydd £12.50. Os am docyn cysylltwch a'r Ysgrifennydd ar 01267 253524

Rhifau Lwcus am fisoedd Mehefin a Gorffnaf.

Dyma'r rhifau lwcus a dynnwyd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Llës ac Adloniant yn ddiweddar.

Mehefin	6	£20.00	Nick Stoneman
	77	£10.00	Idris a Marged Davies
	30	£5.00	Eirlys Lloyd
	99	£5.00	W.D.Robinson
Gorffnaf	89	£20.00	Elvira Howells
	94	£10.00	Barry Morgan
	36	£5.00	Jill Edwards
	7	£5.00	Sandy Mather

Mae rhai rhifau ar gael o hyd. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch a'r Ysgrifennydd, Derick Lock ar 01267 253524 am ragor o wybodaeth.

Canolfan Ailgylchu Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

Mae ymddiriedolwyr o'r uchod mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Gár ynglyn a'r biniau ar gyfer papur, gwydr a chaniau sydd wrth ochr y Neuadd(yn y maes parcio) O dan reolau y cytundeb yr wyf i fel Ysgrifennydd y Neuadd yn gyfrifol am ddanfôn adroddiadau pob pythefnos ar y canlynnol:-

Cyflwr y biniau

Unrhyw sbwriel o amgylch y safle

Unrhyw fandaliaeth

Unrhyw beth anghyfreithlon ar y safle.

Byddai o gymorth mawr i mi petasai unrhyw un sydd yn cael unrhyw broblem ar y safle yn cysylltu ar unwaith er mwyn cysylltu a'r Cyngor Sir i ddatrys y broblem yn gyflym.

Derick Lock Ysgrifennydd y Neuadd ar 01267 253524

Pwyllgor Llës ac Adoloniaid

Mae ymwelwyr i'r Cae chwarae wedi gweld a mwynhau y ddwy sedd newydd sydd wedi cael eu rhoi ar bwys y llwybr ar ochr yr afon. Mae dwy arall wedi cael eu harchebu i'w rhoi ar y llwybr ar bwys y Neuadd. Mae'r Pyst Gól newydd i'w gweld ar y cae ac mae y rhwydau wedi cael eu harchebu. Mae cynnal a chadw ar gyfarpar eraill mewn llaw. Bydd y pwyllgor yn cynnal Bore Coffi Macmillan ar fore Sadwrn Medi 23 2017 o 10.00 y bore tan ganol dydd. Croeso cynnes i bawb ac fe fyddem yn ddiolchgar iawn am bob cyfraniad tuag at y Stondin Gacennau.

Fe fydd Pryd Elusennol y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn Nhafarn y Rheilffordd ar nos Fawrth, Medi 26 2017 am 7.30y.h. Ar y fwydlen bydd Pei cyw Iâr, ham a chennin gyda sglodion. Fe fydd dewis llyseuol ar gael ond gofynnir yn garedig i chi roi gwybod ymlaen llaw.

Mae'r tocynnau ar gael gan unrhyw aelod o'r pwyllgor am £12.50 yr un.

Bydd yr elw yn mynd tuag at EIRIOL sef elusen sydd yn cefnogi unrhyw un sydd a salwch iechyd meddwl mewn cyfarfodydd, sgwrsio ar y ffôn neu ysgrifennu llythyron.

Cysylltwch a'r Cadeirydd, Pamela Jones ar 01267 253257 neu yr Ysgrifennydd, Derick Lock ar 253524

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo.

Cynhaliwyd ein Cinio Blyneddol yn Nhafarn y Rheilffordd ar Fehefin 9ed a chafodd pawb amser da iawn. Roedd y bwyd fel arfer yn fendigedig ac mae ein diolch am hyn i Jayne, Nick a'r staff am wneud y noson yn lwyddiant mawr. Enillwyd Tarian y Rheilffordd am chwareuwr gorau'r tymor yn haeddiannol iawn gan Alan Dentry.

Cynhelir Cyfarfod Blyneddol y Clwb ar nos Iau Awst 31ain am 8.00y.h. yn y Neuadd Goffa. Croeso cynnes i bawb.

Byddwn yn dechrau eto ein ymarfer ar nos Lun Medi 4ydd o 7.30 y.h. i 9.30 y.h. a wedyn bob Nos Lun a Nos Iau tan ddiwedd mis Ebrill nesaf.

Croeso cynnes i aelodau newydd o unrhyw oedran. Does dim eisiau profiad, mae hyfforddwy profiadol gyda ni i'ch cynorthwyo a chefnogi.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a'n Cadeirydd, Alan Dentry ar 01267 253549 neu Derick Lock, Ysgrifennydd ar 01267 253524.

Newyddion yr Heddlu.

Yr ydym yn dal i chwilio am wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda Chynllun Gwyllo Cyflymder Cymunedol yr ydym yn ceisio lansio yn Llanpumsaint. Yr wyf wedi cael llawer o gwynion ble mae gyrrwyr ddim yn cadw o fewn y terfynau newydd sydd wedi cael eu rhoi yn enwedig yn ardal y Cae Chwarae a'r Neuadd. Dyma'r ardal y byddwn yn canolbwyntio arni ond byddai cymorth gwirfoddolwyr hefyd yn gallu monitro y sefyllfa. Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Martin Dickenson, PCSO 8046 ar 101 est.25343.

Bydd yr Heddlu Symudol yn ôl yn y pentref, tu allan i'r Neuadd ar ddydd Mercher, Awst 9 2017 a hefyd ar ddydd Mecher Hydref 11 2017 am 16.30. Gobeithio y cawn eich gweld.

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint.

Awst 11 2017 Drysau y Neuadd Goffa yn agor am 7.30 y.h. ar gyfer **“This River Band Night”**

Ar ôl llwyddiant y llynedd maent yn ôl eto. Mae'r band yn dod yn wreiddiol o Abertawe ac y maent yn chwarae'n gyson yn “Lorenzo” yng Nghaerfyrddin. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn y llynedd gan bawb a gellir prynu tocynnau oddiwrth Emma Brown, Lynsey Jones neu Becky James am £7.50 yr un **Dydd Agored** Diolch i bawb a ddaeth i'r Dydd Agored yn yr Ysgol ym mis Mehefin. Roedd y tywydd yn dda a chafodd y plant ddiwrnod hapus iawn yn dangos eu holl ddoniau.

Codi Arian yn syml Os ydych yn siopa ar y wé medwrch helpu yr ysgol drwy gofrestru ar www.easyfunding.org.uk/causes/LlanpumsiantPTA neu cysylltu a Emma Brown am ragor o wybodaeth. **“£4 Match Funding”** Os oes unrhyw un yn y gymuned yn gallu hawlio yr uchod drwy eu gwaith neu unrhyw ffordd arall ac yn fodlon i'r Gymdeithas uchod i'w hawlio a fyddech cystal a chysylltu a Becky James ar 01267 253560

Llif y Drafnidiaeth o a i Skanda Vale

Mae'r amser prysur wedi cyrraedd eto ac fel sydd wedi cael ei grybwyll gan rai o breswylwyr y pentref byddai cael gwybodaeth am y cyfnodau mwyaf prysur yn ddefnyddiol iawn. Yn gyntaf mae yn gyfnod gwyliau ysgol a gwyliau banc ac oherwydd hyn mae yn denu tyrfaoedd atom. Mae hyn yn fwyaf amlwg yn ystod gwyliau'r haf ac mae tywydd da hefyd yn atyniad. Mae pobl yn teithio dros nos i gyrraedd yma erbyn ein gwasanaeth cyntaf am

5.00 y.b. ac yn aros tan amser brecwast sef 6.30 y.b. a hefyd am 9.30 y.b. sydd yn gorffen fel arfer tua 11.00 y.b. pan fydd pawb yn gadael. Mae'r gwasanaeth nesaf am 1.30 y.p. ac y mae hwn yn boblogaidd iawn ac y maent yn gadael rhwng 3.00 a 4.00 y.p. wedi cael cinio. Mae dau wasanaeth yn yr hwyr. Y cyntaf am 6.00 y.h. a'r llall am 9.00 y.h.. Oherwydd hyn mae pobl yn dod i Skanda Vale o 5.00 y.p. ymlaen ac yn gadael ar ôl swper tua 8.00 y.h. Fe fydd rhai yn aros tan 9.00 y.h. ac yn gadael tua 10.00 y.h. Felly yn syml iawn mae ceir yn dod yma cyn 5.00 y.b. ac yn gadael tua 11.00y.b. Wedyn yn dod tua canol dydd ac yn gadael am 3.00y.p. a'r rhai olaf yn cyrraedd am 5.00 y.h. ac yn gadael rhwng 8.00 a 9.00 y.h.

Gobeithio y bydd hyn o gymorth i chi ac fel y crybwyllwyd yn y rhifyn olaf a Lais y Pentref mae croeso cynnes i chi i ddod yma i Skanda Vale i gael gweld beth sydd yn digwydd yma a chael sgwrs gyda rhai ohonom ni. Y Brawd Francis

Clwb Gwili 60+

Cafwyd ymateb da iawn gyda dros 60 o aelodau yn bresennol i'r cyfarfod ar ddiwedd mis Mehefin. Y siaradwr gwadd oed Mr Frank Barnett o Drelech. Fe wnaeth siarad ar ei brofiadau fel Ifaciwi yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn rhyfedd roedd tri arall yn bresennol a oedd wedi bod yn yr un sefyllfa ag ef. Cafwyd amser diddorol iawn.

Roedd y cyfarfod nesaf ar ddydd Llun Gorffennaf 24ain pan sairadodd Mr Alf Williams ar “Allan o Affrica”. Trefnwyd trip ym mis Mehefin i Gastell Aberteifi. Roedd y tywydd yn garedig iawn a chafwyd amser da wedyn yn nhre Aberteifi gyda phryd o fwyd i ddilyn yn Nhafarn Ffostrasol. Mae trip wedi ei drefnu i Gaerfaddon ar Awst 13eg. Ar hyn o bryd mae rhai seddau gwag ar y bws. Y gost fydd £10.00 a byddwn yn cael pryd o fwyd yn “Bridge Inn” yn Llangennech ar y ffordd adre. Bydd cost y bwyd yn ychwanegol at gost y bws. Os oes diddordeb gyda chi cysylltwch a Val Giles ar 01267 281194.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Awst 21ain a'r siaradwr gwadd fydd Mrs. Jean Arnold. Cynhelir y Cyfarfod Blyneddol ar Fedi 25ain 2017 pan fydd y tâl aelodaeth o £5.00 yn ddyledus.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Val Giles, Ysgrifenyddes y Clwb ar 01267 281194.

Gofal Traed

Dyma ddydiadau y clinig nesaf o 11.00y.b. hyd 4.00y.p, Dydd Mercher 23 Awst

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis)

Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mis Awst Dim cyfarfod

Medi 24ain Serena Rowney-Dougal “Meditation and Psychic Awareness for Dowzers

Hydref 22ain I’w drefnu

Tachwedd 26ain Ros Briagha Testun i’w drefnu

Mae dewinio yn ymarfer hynod o ddiddorol, a hawdd ei ddysgu gwnaeth darddu o’r Aifft. Dewisa nifer o gwmnïau ddefnyddio dewinwyr i ganfod mwynau, olew a gwifrau trydan. Dewinia rai pobl am ddiogelwch eu bwyd ac am straen geopathic yn eu hamgylchfyd, ond hyd yn hyn agwedd bersonol yw heb gadarnhad gwyddonol. Dewch atom i Neuadd Bronwydd am 1.45 y.p, ac am £4 cewch baned i’r fargen. Does ddim angen cyfarpar felly cysylltwch â Sandy ar 01267 253547.

Newyddion Cyfredol y Cyngor

Mae’r etholiadau diweddar wedi creu cythrwfwl; nid oedd hyd yn oed Boris wedi meddwl fyddde’r bleidlais wedi bod o blaid Brexit ac fe wnaeth canlyniad yr etholiad brys diweddaf wneud I un Aelod Seneddol Tori ddweud; ‘dyma ni wedi saethu ein hunain yn y pen’ ond ddigwyddod dim byd dadleuol yn yr etholiadau sirol.....naddo? Mae’n wir, daliodd Irfon Jones afael yn ei sedd fel Cyngorydd Sir ond nid y canlyniad disgwyledig a ddigwyddodd ar lefel y Gymuned oherwydd yn gwbl annisgwyl, ymddeolodd Wyn Thomas fel Cyngorydd ar ôl iddo wasanaethu’r gymuned am 43 mlynedd. Wrth iddo gyhoeddu ei benderfyniad, diolchodd I’r Cyngor am y llu o brofiadau a gafodd dros y deugain mlynedd oherwydd iddynt fod yn baratoad da iddo a’i yn gymwys I fod yn Gyngorydd yn nrhef Caerfyrddin. Penderfynnodd Carolyn Smethurst hefyd I ymddeol a hithau wedi rhoi gwasanaeth amhrisiadwy a chyfrannu’n helaeth I fywyd y Cyngor am gyfnod o 10 mlynedd. Felly yn ddisymwyth ac annisgwyl, roedd Cyngor y Gymuned yn brin o 2 Gyngorydd. Oherwydd fod Etholiad Sirol newydd fod, nid oedd rhaid cynnal etholiad I benodi eilyddion, fyddai modd eu cyfethol, felly, yng nghyfarfod Gorffennaf o’r Cyngor, croesawyd 2 Gyngorydd newydd gan y Cadeirydd Pamela Jones; Gethin Edwards ac Eirion Evans.

Materion sydd wedi eu trafod gan y Cyngor yn ddiweddar yw cyflymdra’r drafndiaeth heibio I’r Cae Chwarae, ac mae’r gor yrru ar ei waethaf pan fydd trafndiaeth yn cael ei ddargyfeirio oddi ar yr A485, drwy’r pentref ac heibio’r Neuadd Goffa. Mae’r Cyngor wedi gofyn I’r Uned Diogelwch ar y Ffyrdd I ystyried gosod rhwystrau ar y ffordd er mwyn gorfodi pawb I arafu. Gormes yn lle gwirfoddoldeb... Unwaith eto, cyflwynwyd cais am gymorth ariannol I osod palmantydd yn y pentref er mwyn diogelwch cerddwyr, ac annogaeth I eraill ddefnyddio’r heolydd fel offer ymarfer corff. Hyd at yma, nid oes yr un cais wedi llwyddo ac yn debyg iawn, methiant fydd y cais hwn hefyd ond, oni heuir, ni fedir!

Yn fuan, cynhelir Fforwm fydd yn cynnwys aelodau o’r gymuned ac Ymddiriedolwyr Skanda Vale gyda’r bwriad o drafod sut mae lleihau effaith trafndiaeth y Deml ar weddill y gymuned. Weithiau mi fydd y pererinion a ddaw o bell I fyfyrion, yn gwneud I’r trigolion lleol felltithio! Rhaid chwilio am gyfaddawd fydd o fantais I’r ddwy ochr.

Clwb Cerdded Llanpumsaint

Fe fydd ein taith am fis Awst ar ddydd Sul Awst 13eg ac yn dechrau am 2.00 y.p.. Byddwn yn cerdded drwy’r Warchodfa Natur Leol, taith o rhyw 4 milltir y rhan fwyaf o’r amser yn cerdded ar y traeth. Wedyn dilyn yr A484 i Bembre a’r heol am un milltir i ‘r Parc Gwledig. Wedyn troi i’r chwith am filltir arall i’r Maes Parcio (am ddim) Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch a fi ac wedyn medrwn drefnu y drafndiaeth (rhannu ceir) Rhif ffôn 253308.

Nid yw y teithiau am fisoedd Medi a Hydref 2017 wedi eu cwblhau eto ond fe fydd y manylion ar ein Gweplyfr cyn bo hir. Carolyn Smethurst.

Newyddion Eglwys y Plwyf gan y Canon Aled W. Williams

Dyma fy ngair olaf i chi yn dilyn y newyddion diweddaraf am Offeiriad llawn amser a fydd yn dod i blwyfi Llanpumsaint a Llanllawddog.

Braint oedd bod yn bresennol yn Ordeiniad mis Mehefin yn y Gadeirlan yn Nhyddewi pryd cafodd y Parch Gaynor Jones-Higgs a nifer o ymgeiswyr eraill dderbyn bendith gan yr Esgob. Yn fy meddwl i nid yw yr hen ddefod yma wedi colli dim o'i phwysigrwydd yn ystod fy nghyfnod fel Offeiriad. Dymunaf estyn pob bendith i'r Parch Gaynor pan fydd yn paratoi ar gyfer ei sialens newydd yn y plwyfi.

Nid pawb sydd yn cael yr anrhydedd o ymddeol ddwywaith ond mae'r anrhydedd yma wedi dod i fy rhan. Deunaw mis yn ôl derbyniais i wahoddiad i ddod yma yn Offeiriad dros dro. Meddyliais i ddim ar y pryd y byddwn wedi bod gyda chi am gymaint o amser. Er hyn mae wedi bod yn gyfnod gwneud ffrindiau newydd a gobeithio bod fy amser gyda chi yn y dair Eglwys wedi bod o fudd i chi. Rwyf wedi ceisio dod i adnabod y rhan fwyaf ohonochi ond gan nad wyf yn byw yn lleol nid yw hynny wedi bod o gymorth mawr chwaith. Er hynny trigolion y plwyfi oedd yn bwysig. Teimlais agosrwydd mawr yn y gymuned sydd yn fy marn i i'w edmygu ond mae yn ofynnol i'r Eglwys barhai i wasanaethu y dair cymuned.

Mae'r Eglwys yn dal i newid fel y mae wedi gwneud dros y canrifoedd. Fel dwedodd yr Esgob yn ddiweddar yng Nghaerfyrddin mae yn ofynnol nawr i ymarferion traddodiadol i wneud lle i bethau newydd fel Rhanbarhau Gweinidogaethol newydd, mwy o bwyslais ar Weinidogaeth Lleyg a'r parodrwydd i fod yn fwy hyblyg i'r sialensiau newydd yn y dyfodol. Apeliad i'r rhai sydd ar gyrion yr Eglwys i ddod i weithio dros Deyrnas Dduw. Nid yw ein Eglwys gwledig erioed wedi bod yn fawr ond mae yn werth cofio fel roedd cydweithiwr i minnau yn arfer dweud "A satsuma is not a failed orange" Gweithiwrch i'ch cryfderau a bendith Duw a fo gyda chi.

Dymunaf ddiolch i bawb am eu caredigrwydd yn enwedig i Swyddogion yr Eglwys ac Arweinwyr yr Addoliad am eu cymorth a'i gwaith di-flino.

Yng ngeiriau yr Apostol Paul "Yn olaf frindiau, ffarwel – byddwch o'r un meddylfryd, byddwch fyw yn heddychlon a bydd Duw y Cariad a Heddwch bob amser gyda chi.

Yn ddiffuant Aled.

Bydd gwasanaethau yn cael eu cynnal yn yr Eglwys yn gyson ond a fyddech mor garedig a gwirio ar yr hysbysfwrdd am fanylion mis Awst rhag ofn bydd y gwasanaethau wedi newid nes bod y Parch Gaynor yn dechrau ar ei gweinidogaeth yn y plwyf ar ddiwedd mis Medi.

Gellir gweld y manylion ar yr hysbysfwrdd ar bwys drws y festri neu ar ein gwefan ar

www.llanpumsaint.org.uk

Stormydd Trydanol a Mellt

Wedi clywed ynnddiweddar am ddifrod achoswyd gan y stormydd ym mis Mehefin ond yn fwy diweddar am ddifrod i gyfarpar trydanol i dŷ lleol meddyliais byddai rhoi gywbodaeth am ein profiadau ni yn gymorth i chi. Yr ydym ni yn gysylltiol a Band-lydan drwy y radio sydd yn pelydri atom drwy lawer o fastiau yn yr ardal. Yn ystod y storm ym mis Mehefin roedd rhai o'r mastiau a ninnau wedi cael ein heffeithio. Ond oherwydd y cyfarpar tu allan doedd dim byd wedi cael eu heffeithio tu fewn i'r tŷ.

Ers 15 blynedd pellach yr ydym wedi defnyddio "Belkin Surge Protectors". Maent yn amddiffyn y cyfarpar sydd wedi cael eu cysylltu a nhw. Maent yn warantedig am oes ac mae ein teledu a phob cyfarpar cyfrifiadurol wedi cael eu ffitio i'r system yma. Dim ond dwywaith mae'r system yma wedi ffaelu dros y blyneddau. Er hyn yn y cyfnodau hyn nid oedd unrhyw gyfarpar o fewn y tŷ wedi cael eu heffeithio ac fe gafodd pob cyfarpar y tu allan eu hadnewyddu am ddim. Gallaf ddweud bod y system yma yn ddefnyddiol iawn ac yn gwenud yn union beth sydd wedi cael ei ysgrifennu ar y boc. Nid yw yn costio llawer ond yn bendant yn dipyn llai na'r gost a'r anghyfleustra sydd yn cael achosi gan broblemau trydanol sydd yn gallu digwydd mewn stormydd cyffelyb.

Yr wyf yn ymwybodol o'r colledion yn ystod y stormydd diweddaraf ond gobeithiaf y bydd ein profiadau ni yn gymorth i chi sut i amddiffyn eich cyfarpar trydanol yn y dyfodol.

Dave Robinson.

Mae Bhopal yn dal i fod o bwys.

Fel y cofiwch yn 1984, beth sydd yn cael ei ystyried y ddamwain ddiwydiannol waethaf yn y byd, fe wnaeth ddigwydd yn Bhopal. Fe wnaeth gwenwyn cemegol ollwng allan o ffatri dros nos ar 2ail/3ydd o Ragfyr 1984. Roedd dros 500,000 o fobl yn byw yn yr ardaloedd cyfagos ac oherwydd y ddamwain erchyll yma lladdwyd o leiaf 4,000. Does neb yn gwybod faint cafodd eu hanafu, eraill gyda effeithiau hir-dymor ond fe allai fod gymaint a 500,000. Mae'r ffatri yn dal i ollwng gwenwyn cemegol i'r ardaloedd cyfagos sydd yn effeithio ar eu cyflenwad dŵr. Mae cancr ar lefel uchel iawn ac mae dros 1700 o blant yn dioddef o Abnormaledd Cydenedigol. Cafwyd tál o \$470m yn 1989 ond nid oedd yn ddigon i ddelio gyda phroblemau iechyd oedd y trigolion yn dioddef ac yn dal i ddioddef 32 o flynyddoedd yn ddiweddarach. Gwaetha'r modd gwerthwyd y safle i "Union Carbide" ac yn eu barn hwy mae pob peth cyfreithiol ynglyn a'r drychineb hyn wedi cau. Er hyn nid yw trigolion Bhopla wedi rhoi'r ffidil yn y tó. Maent wedi agor clinic 20 mlynedd yn ôl i edrych ar ôl eu hiechyd a 10 mlynedd yn ôl agorwyd cronfa i adsefydlu plant y ddinas. Mae hydwythder a dewrder y trigolion sydd wedi goroesu y drychineb hyn wedi rhoi ysbrydoliaeth iddynt i greu rhosyn coch unigryw o'r enw "Flame of Bhopal" neu "Fflam Bhopal". Medrwyd brynu un o rhain i gefnogi y goroeswyr trwy gysylltu a Bill LeGrice ar 01603 784466 neu ar billgrice@hotmail.com Y gost yw £10.95 yr un sydd ddim yn cynnwys tál am bostio. Bydd Bhopal yn derbyn cyfraniad am bob rhosyn fydd yn cael ei werthu.

Os am ragor o wybodaeth am y drychineb hyn medrwyd fynd ar eu gwefan sef www.bhopal.org
Carolyn Smethhurst.

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion am y gwasanaethau am fisoedd Medi a Hydref 2017

Mis Awst Dim Gwasanaethau

Medi 10 2017 Gwasanaeth am 2.00 y.p. Parch Mary Thorley

Medi 24 2017 Cymundeb am 3.00 y.p. Parch Desmond Davies

Hydref 8 2017 Gwasanaeth am 2.00 y.p. Mr Wyn Maskell

Hydref 29 2017 Cymundeb am 2.00 y.p. Parch Huw George

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas, Ysgrifennydd ar 01267 253686

Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Caersalem, Llanpumsaint

Os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlon yw efe a chyfiawn, fel y maddeno i ni ein pechodau, ac y'n glanhao oddi wrth bob anghyfiawnder. 1 Ioan 1:9

Gwasanaeth Cymraeg pob prynhawn Sul am 2pm neu 2.30pm ar wahan i Sul ola'r mis pan mae'r oedfa yn Saesneg

Cwrdd gweddi bob prynhawn dydd Iau ac Ysgol Sul i oedolion ar fore Sul

Croeso i bawb

Am fwy o fanylion ffoniwch Eleri Morris ar 01267 253895

O'r Pentan i'r Parlwr

Daeth ton i falchder dros ardal Llanpumsaint yn 2016 pan urddwyd Wyn Thomas yn Faer Tref Caerfyrddin, ac yn ôl pob tystiolaeth dyma'r cyntaf oll o drigolion Llanpumsaint i gamu i'r swydd. Felly lle bu mudiadau fel Chwirydd Cwmdwyfran a Merched y Wawr Llanpumsaint, yn gyfarwydd â'i weld tu ôl cownter Siop y Pentan ar farchnad Caerfyrddin, fe'i gwahoddwyd ganddo yn ei wisg ysblennydd i Barlwr y Maer uwchben Neuadd San Pedr.

Tystia pob Maer ar derfyn ei flwyddyn i'r profiad fod yn brysurach, yn ehangach ac yn llawer mwy amrywiol nag y tybiwyd ar y dechrau, a dyna ddywedodd Wyn hefyd. Er hynny profodd oes o fywyd cyhoeddus cyn camu i'r swydd.. Yn enedigol o Lanpumsaint ac yn ddisgybl yn yr ysgol yno, lle bu ei ewythr Defi Jones Y Waun a'i fam yn athrawon. Aeth ei frawd Llew hefyd i'r un byd fel swyddog yn yr Adran Addysg. Tra'n byw yn Darfryn Llanpumsaint bu Wyn yn aelod o'r Cyngor Cymuned am 43 o flynyddoedd, "*A bues i'n Gadeirydd, sa i'n cofio sawl gwaith*". Rhoddwyd cinio anrhydeddus iddo yn y Railwe , gyda thystysgrif o werthfawrogiad gan aelodau'r Cyngor Yn ei swydd gyntaf profodd fwrlwm y marts wrth iddo weithio i John Francis am naw mlynedd, cyn mentro i agor Siop y Pentan gydag Eurig Wyn a Wil Lloyd, yn 1972. Ac yno y bu hyd ei ymdeoliad yn 2009. Ar wahân i werthu cynnyrch Cymreig bu Wyn yn llais cryf dros hawliau pobl y farchnad. Death hefyd yn wyneb cyfarwydd ar y sgrin pan oedd angen siarad dros yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. A hyn i gyd cyn symud i'r dre ac ymuno a'r Cyngor yno. Felly gwir y gair pan gychwynnodd, "*S'dim isbe cyflwyno'r Maer newydd! Chi gyd yn i nabod e!*".

Gyda llu o brofiadau newydd fel ton ar ol ton, rheolwyd y dyddiadur yn ddiogel gan Ysgrifenyddes brofiadol y Maer Eleri James. "*Cefais fy synnu gan y croeso cynnes ymhob man, ac yn arbennig ymateb brwdfrydig plant yr ysgolion i'r Maer!*" Bu ymgyrch Elusen Y Maer yn llwyddiant unwaith eto gyda dros £4,000 wedi ei ddsbarthu i 15 elusen leol, a thalodd Wyn deyrnged i'r holl wirfoddolwyr yn y maes. Barnwyd Goleuadau Nadolig y Dre "*Gyda'r gorau yn y gorllewin!*"

Daeth nifer o ddigwyddiadau cadarnhaol i'r amlwg adeg ei flwyddyn, sef, trosglwyddo'r Guildhall i ddwylo'r Cyngor Sir, adnewyddu'r hen ysbyty Prior, agor Cartref Cynnes, adnewyddu Melodrom y Parc a datblygiadau S4C i'r Egin. Bu'n falch i weld dathliadau Dydd Gŵyl Dewi'n ffynnu ac wrth gwrs parhad ym mhoblogrwydd Ras y Maer, gyda 770 yn cystadlu eleni. Gwnaed elw 0 £7,200.

Daeth pobl o Lesneven i Barlwr y Maer am y 35 blwyddyn yn olynol. Ond gwelwyd ef yn teithio allan hefyd i ddathliadau sawl Maer arall; i Hwlfordd, i Gydweli, ac i Lanelli (Maer y Dre a'r Maer Gwledig yno), a bu raid iddo godi'n gynnar iawn er mwyn blasu Brechwast y Porthfaer yn Lacharn.

O hyn oll yr hyn wnaeth fwyaf o argraff arno fu ei ymweliad ag Ysgolion Myrddin a Q.E, i weld ymdrechion dewr y plant yno i lwyddo yn eu Sioeau Nadolig er eu holl anhawsderau, "*Pob un yn cael cyfle.....a gwneud eu gorau glas...yn tynnu dŵr o'ch llyged....S'o ni'n gwbod mor lwcus i ni!*"

Ar wahân o gwrdd â dysgu cymaint daeth gwybodaeth annisgwyl iddo ambell dro. Gan ei fod hefyd yn Borthfaer yr afon Tywi am y flwyddyn rhaid hwylio bob cam i lawr i Lansteffan i archwilio'r Bar, hen ddefod. Ar wahân i fwynhau'r profiad syndod i Wyn fu gweld enw Brian Wharton ymysg rhestr y Commodores yng Nghlanyfferi. Dyn fu'n Landlord Tafarn y Railwe un adeg!

Y farn gyffredinol yw iddo fod yn Faer hynod o boblogaidd a llwyddiannus, yn nabod a chymysgu a phawb. Braff oedd clywed y Neges Ewyllys Da eleni yn y Clos Mawr mewn Cymraeg a Saesneg mor raenus. Lle bynnag yr oedd ar ei draed cadwodd at roi' neges yn hwylus ddwyieithog, gan ennyn edmygedd a gosod esiampl. Bu *Rhegi'r Maer ar ben rhin Alltwalis* yn ymadrodd lleol poblogaidd yn ardal Pencader adeg y ganrif ddiwethaf, yn nodi arferiad rhai i feirniadu o bellter saff. Yn bendant chlywch chi neb yn beirniadu'r Maer hwn o unrhyw dyle na phellter. Felly mae'n llawn haeddu cael ei dderbyn i'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fôn eleni. *Arwyn 2017*

Gwasanaeth Swyddfa Bost - gyferbyn â Thafarn y Rheilffordd ar ddydd Mawrth 2.00 -4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 y.h.

Village Voice

August 2017

Copy Date for next Edition 24th September 2017

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1 hour session.

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

Every Monday and Thursday from 4 September Short Mat Bowls 7.30 – 9.30 Memorial Hall

August 11 Friday 7.30 'The River' at Memorial Hall £7.50

August 13 Sunday 2.00 Walk Pembrey Burrows and Saltings

August 15 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

August 16 Wednesday 60+ trip to Bath

August 21 Monday 2.00 Clubgwili Bronwydd Hall

August 27 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

August 31 Thursday 8.00 AGM Bowls Club Memorial Hall

September 5 Tuesday 8.00 Community Council Memorial Hall

September 9 Saturday Zip Wire at Snowdon in aid of Skanda Vale Hospice 01559 371222

September 13 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

September 19 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

September 23 Saturday 10.00 – 12.00 MacMillan Coffee Morning Memorial Hall

September 24 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

September 24 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

September 25 Monday 2.00 Clubgwili Bronwydd Hall

September 26 Tuesday 7.30 Welfare Charity Meal at Railway Inn

October 3 Tuesday 8.00 Community Council Memorial Hall

October 6 Friday 6.30 pm Harvest Service in Church followed by supper in the Memorial Hall

October 11 Wednesday 16.30 Mobile Police outside the Memorial Hall

October 11 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

October 13 Friday 7.00 Race Night Bronwydd Hall

October 14 Saturday Elvis Tribute Evening Memorial Hall Tickets £12.50

October 17 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

October 22 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

October 29 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

November 4 Saturday Llanpumsaint Choir Annual Concert Tabernacle Chapel Carmarthen

November 7 Tuesday 8.00 Community Council Memorial Hall

November 26 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

Llanpumsaint and Ffynnonhenry Memorial Hall - To book phone Derick Lock on 253524

*Superfast broadband – We now have ultrafast on the Llanpumsaint Exchange,
up to 330mbs!!!! We did it!*

BT Fibre Optic Broadband – one resident’s story

A few weeks ago, I started chatting to Noel Kirkpatrick from the BT Executive Level Technical Complaints /CS Directors Team. The fibre cable has been on the post in the new green box outside the house for quite some time. I had previously checked the status of fibre online and it had not moved for ages. Noel said that Openreach had not changed the status of the plan for ages and it was still saying 1 month before ordering was possible. To be fair to him, he has always got back to me within the 5 working days he promised and has kept on chasing Openreach for a proper update. Thanks Noel.

Remember that when BT put in faster BB to the whole of not-spot Llanpumsaint, years ago, they stopped at the signpost and said that “we” – more than 32 houses up here – were not included as we were “outside” the village. So, we were left with well under 2Mbs.

We eventually went for Resq – aided by a Welsh Government grant - which was the only option available to us. Unlimited downloads and capped at 10 Mbps. It’s wireless, transmitted to us over the airwaves via masts situated around the region. We’ve had that for a few years but it’s now giving us problems, due to the growth of trees, especially during the summer months. Currently between 2 and 6 Mbps.

A couple of weeks ago, I checked to see if fibre was available up here in the sticks – still no movement. On the 14th July, there were some contractors on our lane checking the connections in the green box on the posts so, on the 16th, I checked the BT checker site again and it was ready to order.

We can get 300Mbs !!!! Not needing that, on the 16th July, I ordered BT Infinity 1 and as we can get the max we are guaranteed 52Mb. The installation is in 2 stages.

